

# Uwch Ymarferydd – Tîm Cyswllt Cyntaf Plant
## Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
## Swyddfeydd y Sir, y Fflint

**G08: £44,428 - £47,420**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**

Mae Tîm Cyswllt Cyntaf Plant yn rheoli'r gwaith o gofnodi atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant. Caiff yr atgyfeiriadau eu gwirio am unrhyw bryderon diogelu ac yna gweithredir yn briodol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a chânt eu rhannu â'r timau priodol yn fewnol neu eu pasio ymlaen i'n Gwasanaeth Cymorth Cynnar. Fel Uwch Ymarferydd yn Nhîm Cyswllt Cyntaf Plant byddwch yn gyfrifol am ymateb i'r holl adroddiadau a dderbynnir, eu dyrannu'n briodol neu eu pasio ymlaen i'r asiantaeth neu'r tîm mewnol perthnasol. Bydd disgwyl i'r ymarferydd gysylltu a gweithio'n agos gydag asiantaethau statudol eraill. Byddwch yn ymuno â thîm sefydledig sy'n gweithredu o fewn cylch gwaith ein Gwasanaethau Plant, a byddwch yn gyfrifol am sicrhau y ffurfir polisïau a gweithdrefnau, ac y cydymffurfir â nhw.

Mae'n rhaid i chi fod yn ymarferydd cryf a brwdfrydig, a bod â'r weledigaeth a'r cymhelliant i ddarparu amrywiaeth o ofal cymdeithasol o ansawdd uchel, sy'n gost effeithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, i blant a'u teuluoedd, gan roi sylw penodol i risgiau sy'n gysylltiedig â'r plentyn a'i deulu. Mae'r tîm hefyd yn cwblhau asesiadau Risg Cyn Geni a gwaith Cyfraith Breifat wrth gwblhau Dadansoddiad o Effaith ar Blant ac adroddiadau Adran 7 ac Adran 37.

Gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae'r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o'r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014). Mae'r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru ac mae'r swydd yn amodol ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae trwydded yrru'n hanfodol, oni bai fod anabledd yn atal hynny.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â: Jane Turvey (Rheolwr Gwasanaeth) ar Jane.L.Turvey@flintshire.gov.uk neu Brigid Gribbin (Rheolwr Tîm) ar Brigid.Gribbin@Flintshire.gov.uk

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r nifer o weithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau staff newydd neu gyfredol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council